

# **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 Polisi**

---

**CCBC - Uned Llywodraethu Gwybodaeth**

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Fersiwn | Disgrifiad/rheswm dros y newid        | Awdur     | Awdurdod | Dyddiad cyhoeddi |
|---------|---------------------------------------|-----------|----------|------------------|
| 1       | Cyhoeddiad gwreiddiol (DRhG yn unig)  | IWO (IRU) |          | 22/04/2004       |
| 2       | Adolygu (DRhG yn unig)                | IWO (IRU) |          | 11/12/2009       |
| 3       | Adolygu (DRhG yn unig)                | DS (CICS) |          | 07/04/2010       |
| 4       | Adolygu (DRhG gan gynnwys RhGA)       | DOC (IGU) |          | 08/10/2012       |
| 4.1     | Diwygiadau (DRhG / RhGA)              | DS (CICS) |          | 26/10/2012       |
| 5.0     | Adolygu                               | DOC (IGU) |          | 24/3/2015        |
| 6.0     | Diwygiad – prawf cysylltiad y cyhoedd | DOC (IGU) |          | 20/1/2016        |

## Cyflwyniad

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA) yn rhoi hawliau mynediad cyhoeddus i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn helpu'r Cyngor i greu hinsawdd agored a deialog gyda'i holl gyfranogion, a fydd yn ei dro'n helpu cynyddu hyder y cyhoedd yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Nid yn unig y bydd arferion RhG ac RhGA cadarn yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymadau, ond byddant hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i ddeall yr hyn y mae gan y cyhoedd ddiddordeb ynddo, gan helpu'r Cyngor i siapio darpariaeth gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cofleidio diwylliant agored, cyraeddadwy ac atebol gyda rhagdybiaeth i gyhoeddi cymaint o wybodaeth â phosibl.

Mae'r polisi hwn yn trafod DRhG 2000 a RhGA 2004. Bydd ceisiadau am wybodaeth dan y ddau yn cael eu galw'n 'geisiadau am wybodaeth' ond bai fod angen gwahaniaethu ymhellach. Mae'r polisi hwn yn ddatganiad o'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i sicrhau cydymffurfriad gyda'r ddeddfwriaeth. Nid yw'n ddatganiad o'r modd y sicrhau cydymffurfriad; bydd hwn yn fater i drefnau gweithredol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth ym meddiant y Cyngor ni waeth sut y cafodd ei chreu neu ei derbyn. Mae'n gymwys ni waith sut y caiff yr wybodaeth ei storio, neu os yw'r wybodaeth ar ffurf papur neu electronig. Mae'r ddwy ddeddf yn llwyr ôl-weithredol.

## Beth sy'n gais am wybodaeth

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â phob cais am wybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a bydd yn ceisio cynorthwyo'r cyhoedd i arfer eu 'hawl i wybod' drwy sicrhau bod ei weithwyr yn deall yr 'hawliau' a bod trefnau ar waith i hwyluso mynediad.

Mae DRhG (2000) a RhGA (2004) yn caniatáu unrhyw un i wneud cais am wybodaeth gan y Cyngor beth bynnag yw eu hoed, cenedligrwydd, lleoliad, neu gymhelliad, yn amodol ar nifer cyfyngedig o eithriadau ac esgusodiadau a amlinellir dan y gyfraith.

Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a gynhyrchwyd yn fewnol gan y Cyngor yn ogystal â gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Cyngor ynglŷn â sefydliad arall neu a dderbyniwyd gan sefydliad arall yn dilyn cyfnewid gwybodaeth â'i gilydd, e.e. contract neu gytundeb partneriaeth.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dan y DRhG (2000) mae angen i geisiadau;

- Fod yn ysgrifenedig (e-bost, llythyr neu ffacs)
- Bod yn ddarllenadwy
- Cynnwys enw'r ymgeisydd
- Cynnwys cyfeiriad gohebiaeth ar gyfer ymateb (mae cyfeiriad e-bost yn ddigon)
- Disgrifio'n glir yr wybodaeth y gofynnir amdani.

Nid oes rhaid i geisiadau dan y RhGA (2004) gael eu gwneud yn ysgrifenedig; fodd bynnag dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o unrhyw geisiadau a dderbynnir ar lafar.

Ni fydd rhaid i Ymgeiswyr egluro pwrpas eu cais, er hynny wrth fynd ati i gael eglurhad ar geisiadau a chanfod yn union pa wybodaeth y gofynnir amdani mae'n bosibl y bydd angen gofyn am ragor o wybodaeth ganddynt. Nid oes angen i geisiadau am wybodaeth gyfeirio at unrhyw ddeddfwriaeth i fod yn gymwys fel ceisiadau swyddogol. Gall unrhyw weithiwr / Wasanaeth yn y Cyngor dderbyn ceisiadau am wybodaeth.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor o leiaf un Swyddog Cydymffurfiaeth Llywodraeth Gwybodaeth a enwebwyd i gydlynu ymatebion i geisiadau am wybodaeth. Mae angen i'r unigolyn hwn fod ar lefel digon uchel yn eu Gwasanaeth i hwyluso ac arwain swyddogion drwy'r broses, ac mae angen i'w Pennaeth Gwasanaeth perthnasol awdurdodi bob ymateb cyn eu datgelu i'r ymgeisydd.

Mae Swyddogion Cydymffurfio yn cymryd cyfrifoldeb dros y cais a sicrhau ei fod wedi'i gofnodi'n gorfforaethol gyda'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth (ULIG) os derbyniwyd y cais yn uniongyrchol. Dylent hefyd gofnodi'r cais yn lleol os oes angen a threfnu i gydlynu a chasglu'r wybodaeth naill ai i'w datgelu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd neu drwy'r ULIG.

Dylai unrhyw Wasanaeth sy'n derbyn cais am wybodaeth sy'n trafod mwy nac un Gwasanaeth anfon y cais ymlaen at yr ULIG a fydd yn cofnodi a chydlynu'r ymatebion. Swyddogion Cydymffurfiaeth y Gwasanaeth(au) perthnasol fydd yn dal i gasglu'r wybodaeth.

Mae'r ULIG yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn ac am gydlynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer ceisiadau am wybodaeth. Maent yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chymorth ynglŷn â sut i ddelio â cheisiadau RhG a RhGA.

Cofrestrir ceisiadau a dderbynnir gan yr ULIG a'u hanfon at y Swyddog(ion) Cydymffurfiaeth perthnasol. Dylai naill ai'r ULIG neu'r Swyddog Cydymffurfiaeth hefyd anfon unrhyw geisiadau a allai fod yn ddadleuol at y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol a Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus i sicrhau y gellir ymateb i unrhyw ymholiadau dilynol a dderbynnir.

Mae cyfrifoldeb ar Benaethiaid Gwasanaeth i sicrhau y gweithredir ar geisiadau am wybodaeth yn y modd cywir a bod gan y Swyddog Cydymffurfiaeth a enwebir gan y Gwasanaeth y gefnogaeth sydd ei hangen i gyflawni ei swyddogaeth dan y DRhG a'r RhGA. Mae ganddynt gyfrifoldeb i lofnodi ceisiadau cyn datgelu gwybodaeth.

Rhaid hefyd derbyn cymeradwyaeth y Swyddog A151 cyn datgelu gwybodaeth am wariant o dros £20k gan y Cyngor.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth yn cyrraedd y Swyddog Cydymffurfiaeth a enwebwyd ar gyfer eu Gwasanaeth neu'r ULIG cyn gynted â phosibl, a hefyd i ganfod unrhyw wybodaeth y gofynnir iddynt amdano o fewn amserlen benodol.

## Cyflenwi cyngor a chymorth

Mae ymrwymiad ar y Cyngor i gyflenwi cyngor a chymorth mewn ymateb i geisiadau am fynediad i wybodaeth os oes modd iddynt wneud hynny'n rhesymol ac os oes angen cymorth o'r fath. Gall staff ac/neu ymgeiswyr gysylltu â'r ULIG ar unrhyw adeg.

## Amserlenni ac ymatebion

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddelio â cheisiadau am wybodaeth yn brydlon a ddim hwyrach na'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i bob cais am wybodaeth gymryd 20 diwrnod gwaith a byddant yn ymdrechu, lle bo hynny'n bosibl, i gyflenwi'r wybodaeth a ofynnwyd amdani ar y cyfle cyntaf posibl wedi dyddiad y cais.

Lle bod disgwyl oedi cyn y gwneir penderfyniad wedi'r cyfnod hwn er mwyn ystyried y prawf lles y cyhoedd, rhaid i'r Cyngor roi amcangyfrif realistig a rhesymol ynglŷn â phryd y gwneir penderfyniad. Rhaid cydymffurfio â'r amcangyfrif diwygiedig hwn oni bai fod rheswm dilys dros beidio gwneud hynny. Os methir cadw at yr amcangyfrif, dylai'r ymgeisydd dderbyn ymddiheuriad ac esboniad am yr oedi. Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r ymgeisydd os yw'n dod i'r amlwg nad yw'r amcangyfrif yn realistig.

## Cael eglurhad ar gais

Os yw'r cais yn aneglur, mae dyletswydd ar y Cyngor i gael eglurhad ar y cais gan yr ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar yr ymgeisydd i ddatgelu ei amcanion / hamcanion na'r cymhelliad dros wneud y cais.

Os yw'r Cyngor wedi cynnig yr holl gyngor a chymorth y mae'n ystyried yn rhesymol a bod yr ymgeisydd yn dal i fethu disgrifio'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn modd sy'n galluogi'r Cyngor i'w canfod a'i lleoli, ni wneir unrhyw ymdrech bellach i gael eglurhad.

Bydd y Cyngor, fodd bynnag, yn cyflenwi unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chanfod a'i lleoli y mae'n credu sy'n berthnasol i'r cais, yn amodol ar unrhyw esgusodiadau, eithriadau ac / neu'r prawf lles y cyhoedd.

## Derbyn cais

Pan dderbynnir cais am wybodaeth, naill ai gan swyddog cydymffurfiaeth y gwasanaeth neu gan yr ULIG, rhaid ystyried y canlynol:

- Canfod pa ddeddfwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi. I sicrhau yr ymdrinnir â'r cais yn briodol. Os yw'r cais yn berthnasol i RhG a RhGA, delir â'r rhannau perthnasol dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Os yw'r cais yn ymwneud â data personol yr ymgeisydd, rhaid ei brosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.
- All un gwasanaeth ddelio â'r cais neu a oes angen i nifer o wasanaethau ei ystyried.

Mae angen cofnodi pob cais RhG a RhGA gyda'r ULIG, er y gellir eu cofnodi hefyd yn lleol o fewn Gwasanaeth lle bo'r angen – yn enwedig os oes modd delio â'r cais yn

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

uniongyrchol gyda'r cwsmer yn unol â safonau gwasanaeth cwsmer presennol ac nad oes unrhyw esgusodiadau neu eithriadau'n berthnasol. Dylid rheoli pob cais yn ymarferol drwy ei gylch bywyd.

## Pa wybodaeth sydd wedi'i chynnwys

Mae'r DRhG a'r RhGA yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal, dim ots sut y cafodd ei derbyn ac nid dim ond gwybodaeth a gynhyrchwyd gan y Cyngor neu y mae'n ei ddefnyddio i'w bwrpasau busnes ei hun. Dywedir bod y Cyngor yn dal yr wybodaeth hyd yn oed os mai corff arall sy'n berchen ar yr wybodaeth neu'r hawlfraint, neu'n cael ei dal gan awdurdod arall hefyd. Nid yw copïo gwybodaeth er mwyn ei rhyddhau dan y DRhG neu'r RhGA yn torri cyfreithiau hawlfraint. Nid oes angen creu gwybodaeth newydd i gydymffurfio â chais.

Rhaid delio â cheisiadau am wybodaeth yn ymwneud â rhyddhau gwybodaeth personol am gleientiaid sydd wedi marw dan RhG gan fod Deddf Diogelu Data 1998 (a ddefnyddir i ddelio â mynediad i gofnodion personol fel arfer) ond yn berthnasol i unigolion byw.

## Ffioedd a chodi tâl

Nod y Cyngor yw cyflenwi cymaint o wybodaeth a phosibl am ddim ar y wefan i gwsmeriaid ei lawrlwytho. Felly ni fydd y Cyngor yn codi tâl am geisiadau gwybodaeth oni bai fod amgylchiadau eithriadol lle na ellir casglu'r wybodaeth drwy drefnau gwaith arferol.

Dan y DRhG mae eithriad lle nad oes rhaid i'r Cyngor gydymffurfio gyda chais lle byddai'r costau'n uwch na'r terfyn priodol, sy'n golygu'n ymarferol y byddai'n cymryd mwy nac 18 awr i gydymffurfio ag o. Yn yr achos hwn, mae dyletswydd yn parhau i fod ar y Cyngor i gadarnhau neu wadu a yw'n dal yr wybodaeth, oni bai y byddai hyn ynddo'i hun yn mynd y tu hwnt i'r terfyn.

Mae tybiaeth ym mhob achos lle byddai angen mynd y tu hwnt i'r terfyn o 18 awr o amser staff, y bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth i helpu'r cwsmer i fireinio neu gulhau cwmpas eu cais.

## Ymgynghoriad trydydd parti

Mae'r Cyngor yn deall, oni bai fod esgusodiad neu eithriad dilys yn berthnasol, y bydd ymrwymiad arno i ddatgelu'r wybodaeth a ofynnwyd amdani am gwmni, awdurdodau cyhoeddus neu unigolion mewn ymateb i gais dilys am wybodaeth.

Yn gyffredinol, bydd angen / bydd yn gwrtais i'r cyngor ymgynghori ag unrhyw drydydd parti am y posibilrwydd o ddatgelu gwybodaeth ynglŷn â nhw. Bydd eu barn yn bwysig os oes angen asesu cydbwysedd lles y cyhoedd o safbwynt datgelu'r wybodaeth.

Ar bob achlysur lle nad yw'r ddau barti yn llwyddo i gytuno ar ddatgelu, y Cyngor fydd â'r penderfyniad terfynol.

## Tendrau a Chontractau

Oni bai fod esgusodiad neu eithriad yn berthnasol, bydd ymrwymiad ar y Cyngor i ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â phroses cyn tendro a thendro.

Bydd datgelu gwybodaeth yn ymwneud â phrosesau cyn tendro a thendro yn arbennig o sensitif o ran amser, er enghraifft y posibilrwydd o ragfarnu ymarferiad tendro parhaus ac

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

felly dylid gofyn am gyngor gan y Rheolwr Contractau Corfforaethol, y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r ULIG wrth benderfynu pa wybodaeth y dylid ei datgelu, a pha bryd.

Ni fydd y Cyngor yn cynnwys telerau cytundebol sy'n ceisio cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor y tu hwnt i'r cyfyngiadau a ganiateir gan y ddeddfwriaeth.

Oni bai fod esgusodiad neu eithriad yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw ran benodol o gontract, bydd ymrwymiad ar y Cyngor i ddatgelu'r wybodaeth honno mewn ymateb i Gais am Wybodaeth beth bynnag fo unrhyw delerau'r contract.

Ar y cam tendro, bydd y Cyngor yn gofyn i gontractwr nodi ar y dechrau pa wybodaeth a gyflwynir ganddynt y maent yn ei hystyried yn sensitif yn fasnachol ac / neu yn gyfrinachol ac am ba gyfnod y dylid ystyried y wybodaeth fel hynny.

Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achos hwn, gellid diystyru'r cyfyngiadau ar ddatgelu yn sgil ymrwymiadau'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth, er enghraifft, lle mae lles y cyhoedd yn gorbwyso cyfrinachedd yr wybodaeth.

## Ailolygu

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi hawl i wybodaeth yn hytrach na dogfennau. Felly, os eithriwyd rhan o'r ddogfen, mae'n bosibl y bydd angen ailolygu rhywfaint o'r wybodaeth (golygu'r wybodaeth eithriedig) i ddileu'r adran(nau) priodol a datgelu'r gweddill. Dylid cadw cofnod ynglŷn â'r esgusodiadau / eithriadau sy'n berthnasol. Rhaid cadw copïau o'r ymateb a ailolygwyd a'r ymateb na ailolygwyd rhag ofn y derbynnir cais ac/neu ymholiad am Adolygiad Mewnol gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Wrth ailolygu gwybodaeth, cysylltwch â'r ULIG am gyngor os oes angen.

## Esgusodiadau ac Eithriadau

Ni fydd y Cyngor yn dal gwybodaeth yn ôl, oni bai fod esgusodiad neu eithriad rhag datgelu yn berthnasol. Gallai hyn gynnwys gwrthod delio gyda cheisiadau ailadroddus a blinderus dan A14 DRhG ac / neu Reoliad 12(4)(b) y RhGA.

Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr esgusodiad / eithriad sy'n berthnasol a'r rheswm drwy hysbysiad gwrthod, yn ogystal â manylion am sut i apelio.

Rhaid i Swyddog Monitro'r Cyngor awdurdodi hysbysiadau gwrthod dan A36 y ddeddf RhG. Byddent yn cael eu cefnogi a'u cynorthwyo i ystyried a oedd A36 yn berthnasol gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth.

Dan RhGA, mae pob eithriad yn destun prawf lles y cyhoedd.

Rhaid cofnodi pob esgusodiad / eithriad a weithredir yn y ffeil geisiadau.

Dylai staff gysylltu â'r ULIG i gael arweiniad wrth ystyried a oes unrhyw esgusodiadau neu eithriadau yn berthnasol.

## Prawf Lles y Cyhoedd

Er mwyn ymgeisio am eithriad neu eithriad 'cymwys', rhaid i brawf lles y cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn ôl fod yn bwysicach na lles y cyhoedd o ran ei ryddhau.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwneir y dyfarniad hwn (a wneir fesul achos unigol) yn dilyn derbyn gwybodaeth gan y gwasanaeth gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth.

Os yw ystyried y prawf lles y cyhoedd yn debyg o olygu y bydd y cais yn cymryd hirach na'r terfyn o 20 diwrnod gwaith, mae angen hysbysu'r ymgeisydd am yr estyniad ar unwaith, a'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr angen am estyniad.

Dylai staff gysylltu â'r ULIG am arweiniad ar y prawf lles y cyhoedd.

## Apeliadau a Chwynion

Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon gyda phenderfyniad mae hawl ganddynt i ofyn am adolygiad annibynnol o'r penderfyniad, drwy'r drefn Adolygu Mewnol RhG a RhGA.

Gellir cynnal adolygiad mewn perthynas â'r canlynol:

- Nid yw'r Cyngor yn dilyn ei drefn cyhoeddi
- Ceisiadau na ddeliwyd â nhw'n gywir (ym marn yr ymgeisydd)
- Lle bod yr ymgeisydd yn anfodlon gyda chanlyniad yr ystyriaeth a roddwyd i'r cais.
- Lle bo'r mater yn un na ellir ei ddatrys yn anffurfiol drwy drafod gyda'r swyddog sy'n delio â'r cais.

Dylid cofnodi pob cais am Adolygiad Mewnol a'u hadrodd i'r ULIG.

Delir ag adolygiadau fel arfer o fewn 20 diwrnod i'r Cyngor dderbyn cais ysgrifenedig.

Ar ôl dilyn trefn Adolygu Mewnol y Cyngor, rhaid i'r ymgeisydd, os yw'n parhau i fod yn anfodlon, gyfeirio unrhyw gais pellach am adolygiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Cyflenwi'r wybodaeth

Lle bo hynny'n bosibl, bydd y Cyngor yn ymdrechu i gyflenwi'r wybodaeth yn y fformat a ofynnwyd amdano gan yr ymgeisydd. Ystyri'r deddfwriaeth fel y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym mhob achos i sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn yr wybodaeth ar ffurf addas.

Rhaid hefyd rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y broses apelio.

## Cynllun Cyhoeddi

Bydd y Cyngor yn cynnal cynllun cyhoeddi ac yn ei ddiweddarau'n rheolaidd.

## Monitro ac Adrodd

Bydd yr ULIG yn cynhyrchu adroddiadau amserol ar berfformiad RhG/RhGA.

Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i;

- Cyfanswm y ceisiadau
- Prydlondeb y ceisiadau hynny
- Canlyniadau'r ceisiadau hynny
- Ffynhonnell y ceisiadau hynny.
- Rhestr lawn o esgusodiadau/eithriadau a ddefnyddiwyd ar gyfer ceisiadau
- Nifer y ceisiadau a aeth ymlaen i'r cam Adolygu Mewnol
- Nifer y ceisiadau a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Gwybodaeth

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## UNED LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Lleolir Uned Lywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ym Modlondeb, a'i chyfrifoldeb yw hwyluso a rhoi cyngor ar gydymffuriad y Cyngor gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998 ar lefel gorfforaethol, a chefnogi Gwasanaethau/ Adrannau'r Cyngor. Mae'r Uned yn rhan o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol.

### Manylion cyswllt:

Uned Lywodraethu Gwybodaeth  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol  
Bodlondeb  
CONWY  
LL32 8DU  
Ffôn: 01492 574016

E-bost [uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk](mailto:uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk)